



Dewis Cymru

Cael dewis a rheolaeth

Sut i gofrestri gyda Dewis Cymru ac ychwanegu eich adnodd

Cam 1 – i gofrestru:


1. Ar y dudalen hafan, cliciwch y botwm cofrestru i fynd i dudalen 'Creu Cyfrif Newydd'.
www.dewis.cymru
2. **Enw Arddangos:** Eich enw arddangos fydd eich enw defnyddiwr pan fyddwch chi'n mewngofnodi; defnyddiwch eich enw neu lythyren cyntaf eich enw a'ch cyfenw.
3. **E-bost:** Teipiwch y cyfeiriad e-bost y mae arnoch chi eisiau i'r safle ei ddefnyddio i gyfathrebu efo chi. Bydd y safle'n gwirio'r e-bost hwn yn ystod eich cofrestrriad.
4. **Cyfrinair:** Mae'n rhaid i'ch cyfrinair fod yn o leiaf 7 nod gydag o leiaf un prif lythyren ac un symbol e.e. byddai 'Hydref!' yn gweithio ond fyddai 'Hydref1' yn methu'r broses ddilysu.
5. **Cwestiwn Diogelwch:** Eich dewis chi; bydd y cwestiwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion diogelwch pan fyddwch chi'n mewngofnodi ac os bydd angen i chi adfer eich cyfrinair
6. **Awdurdod Lleol:** Ym mha sir ydych chi?

Cam 2 - Tri Cham Hawdd i Ychwanegu Eich Adnodd

1. Cofrestru ar y safle

- www.dewis.cymru Cymraeg
- www.dewis.wales Saesneg

2. Ychwanegu eich gwybodaeth ar y tudalen 'Ychwanegu/Golygu Adnoddau'

- Peidiwch ag anghofio llenwi'r holl feysydd gorfodol
- Cliciwch ar y logo cymorth am fwy o wybodaeth 
- Gallwch arbed eich gwaith ar unrhyw adeg drwy glicio ar [Cadw'r newidiadau]
- Ceir tab 'testun Cymraeg' ar y dudalen ychwanegu eich adnoddau
- Pan fyddwch chi wedi gorffen nodi'ch gwybodaeth ticiwch y blwch i'w chyhoeddi
- Bydd y safle'n cynnal gwiriad diogelwch a bydd rhywun yn cyhoeddi eich adnodd neu'n cysylltu efo chi i drafod eich gwybodaeth

3. Golygu eich adnodd

- Gallwch ddefnyddio'r ddolen 'Adnoddau rwy'n gyfrifol amdanynt' ar y dudalen Ychwanegu/Golygu Adnoddau i newid/golygu eich gwybodaeth#
- Os yw eich adnodd wedi ei gyhoeddi, gallwch chi ei addasu o hyd. Yna caiff eich adnodd ei anfon am gymeradwyaeth. Bydd yn weladwy yn y system ar ôl cael ei gymeradwyo.

Os oes angen help a chymorth arnoch chi, defnyddiwch y tab 'Cysylltu â ni' ar frig y dudalen. Bydd aelod o dîm Dewis Cymru mewn cysylltiad.